# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nos Iau, 31ain o Ionawr 2019**

**Presennol:** Cynghorwyr: Dafydd E Evans (Cadeirydd), Siôn Ifans, Deryck Lewis, William N Owen, Gareth Owen, Huw Williams, Gwen Lloyd, Geraint Wigley, Aled Griffiths, Iwan P Jones, Gareth Jones

**Ymddiheuriadau:** Paul Hughes, Gwenfair Davies

**19.04: Datganiadau o ddiddordeb**

Dim

**19.05: Cyflwyno a derbyn cofnodion cyfarfod arbennig y 3ydd o Hydref 2018**

Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan Gareth Owen ac fe'i eiliwyd gan Gwen Lloyd.

**19.06: Cyflwyno a derbyn cofnodion cyfarfod arbennig y 24ain o Ionawr 2019**

Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan Huw Williams ac fe'i eiliwyd gan Gareth Owen.

**19.07: Cyflwyno a derbyn cofnodion cyfarfod Rhagfyr 2018**

Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan William N Owen ac fe'i eiliwyd gan Deryck Williams.

**19.08: Materion yn codi o'r cofnodion – Rhagfyr 2018**

**18.92.1:** Derbyniwyd e-bost gan y Cyngor Sir i ddweud bod y Precept wedi ei dderbyn.

**18.95.2:** Cadarnhaodd Sion fod y ddogfen sy'n cael ei gyhoeddi gan y Cyngor Sir ynglyn a phenderfyniadau cynllunio yn nodi penderfyniad y Cyngor Sir, nid y Cyngor Cymuned.

**19.09: Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol er Lles y Cyhoedd, Swyddfa Archwilio Cymru yn unol gyda Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, adrannau 24-27**

**09.01**: Cynigiwyd y dylid derbyn yr argymhellion gan Gareth Owen. Fe eiliwyd y cynnig gan Siôn Ifans.

**09.02:** Yn sgil derbyn yr argymhellion nododd Dafydd Evans y bydd yr adroddiad i'r Cambrian News yn nodi y bydd gweithredu'r argymhellion a phenodi clerc newydd yn gamau positif ar gyfer symud ymlaen at y dyfodol.

**19.10: Cynllunio**

**10.01**: Derbyniwyd cais cynllunio ar gyfer gosod to newydd ar Ben-y-bont, Cemmaes Road, Machynlleth 18/1177/LBC

Cynigiwyd gan Aled Griffiths y dylid derbyn y cais. Fe'i eiliwyd gan Huw Williams.

**19.11: Eitemau i'w talu a materion ariannol**

**11.01:** Derbyniwyd 2 anfoneb gan y Cambrian News, un ar gyfer hysbyseb swydd y clerc a'r llall ar gyfer hysbysebu'r cyfarfod heno. Hyd yn hyn Dafydd Evans sydd wedi talu am y rhain. Bydd Dafydd Evans yn cyflwyno'r anfonebau yn y cyfarfod nesaf yn ogystal ag anfoneb ar gyfer adroddiad cyfarfod heno.

**11.02:** Derbyniwyd cais am £400 gan Sioned Thomas Jones ar ran Capel y Bedyddwyr Tal-y-wern tuag at gynnal a chadw'r fynwent. (yn cynnwys ôl-daliad ar gyfer 2018 a £200.00 ar gyfer 2019). Cynigiwyd gan Aled Griffiths y dylid talu £400 gan anrhydeddu'r cais am 2018. Fe'i eiliwyd gan Gwen Lloyd.

**19.12: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

**12.01:** Nododd Aled Griffiths fod Ysgol Glantwymyn, Carno a Llanbrynmair wedi cael adroddiad canmoladwy iawn gan ESTYN, gan gyrraedd 'Da' ar gyfer 4 categori a 'Rhagorol' ar gyfer y 5ed categori, sef arweiniad gan y Pennaeth a'r Llywodraethwyr. Llongyfarchwyd y Ffederasiwn a mynegwyd balchder bod Dafydd Evans wedi cael ei ethol yn lywodraethwr gan ymuno ag Aled Griffiths a bod dau gynghorwr felly yn llywodraethwyr erbyn hyn.

**19.13: Gohebiaeth**

**13.01:** Derbyniwyd e-bost gan Charlie Falzon ar ran Menter Mynyddoedd Cambria i dynnu sylw at fodolaeth y Fenter. Nodwyd y cynhelir Pwyllgor Menter Mynyddoedd Cambria ym Machynlleth ym mis Chwefror.

**19.14: Unrhyw fater arall**

**14.01:** Cafwyd trafodaeth helaeth ynghylch y cyhoeddiad diweddar y bydd Meddygfa Glantwymyn yn cau. Penderfynwyd y byddai Dafydd Evans yn cysylltu â'r Cynghorwr Elwyn Vaughan er mwyn symud ymlaen yn effeithiol ac yn unedig. Yn dilyn siarad gyda'r Cynghorydd Sir fe gynigiwyd gan Iwan PJones y dylai cynnal cyfarfod gyda cynrychiolwyr o'r feddygfa er mwyn cwestiynu eu penderfyniad gan gofio y cyfarfodydd blaenorol a gafwyd ar y cyd gyda Cynghorau Cymuned eraill. Cynigiodd fod y cyfarfod yma yn agored i unrhyw Gynghorydd Cymuned sydd o fewn yr ardal. Eiliwyd hyn gan Sion Ifans ar sail argymhelliad y Cyngorydd Sir.

**14.02:** Mynegwyd syndod gan Gareth Owen fod Syrjeri Glantwymyn wedi cael ei gau o ganlyniad i dywydd anffafriol heddiw a hynny heb rybudd ymlaen llaw. A bod nifer o bobl wedi mynychu'r syrjeri heb ddeall ei fod ar gau. Tynnodd Gwen Lloyd sylw at y ffaith mai cyfleuster cyhoeddus yw'r syrjeri a bod disgwyl i'r lori chwalu halen fynd yno o'r herwydd.

**14.03:** Tynnodd Gareth Owen sylw at y gwaith gwael sy wedi cael ei wneud o dorri'r coed yn y Pant ger Cwmlline. Ategwyd hyn gan Deryck Lewis. Cytunwyd y dylid anfon llythyr at Adran y Priffyrdd i ofyn am dorri coed yr ochr arall i'r ffordd hefyd gan fod y gwaith a wnaethpwyd eisoes wedi creu sefyllfa beryglus iawn.

**14.04:** Tynnwyd sylw gan Deryck Lewis at gyflwr gwarthus cilfan rhwng Cwmlline ac Aberangell o ganlyniad i sbwriel. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir glirio'r sbwriel o fewn y llythyr uchod.

**14.05:** Mynegwyd pryder gan Deryck Lewis nad yw hydrantau dŵr yng Nghwmlline yn amlwg i'r cyhoedd o ganlyniad i lorïau'n teithio drostynt. Penderfynwyd cysylltu â'r Gwasanaeth Tân yn lleol i ofyn iddynt eu peintio'n felyn.

**14.06:** Cyfeiriodd Deryck Lewis at dyllau archwilio ger Brynhyfryd a'i dŷ, a chafwyd cadarnhad bod llythyr wedi mynd i Gyngor Sir Powys ynglŷn â'r problemau hynny.

**14.07:** Cyfeiriwyd at ddau gaead tyllau archwilio ar y ffordd gefn o Ffriddgate i'r Ganolfan Technoleg Amgen. Mae un angen cael ei ail-osod, ac mae'r ddau angen sylw gan eu bod yn uwch na'r tarmac ac yn aneffeithiol o ganlyniad. Penderfynwyd crybwyll y mater yn y llythyr i'r Adran Priffyrdd uchod.

Caewyd y cyfarfod am 8.50

**Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau, 28ain o Chwefror am 7.30yh.**